

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
5 Chwefror 2024 yn Festri Capel, Penuwch am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
5 February 2024 at Penuwch Chapel Vestry at 8.00pm

Presennol/Present

Cyng/Cllr Rhian Turner (Gadair/Chair), Gwenfair Owen, Sarah Evans, Gwilym Evans, Daniel Thomas, Beryl Evans, Ieuan Gwynne, Myrddin James, Gerwyn Ebenezer, Emyr Jones & Cyng/Cllr Rhodri Evans & PCSO John Evans.

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Paul Rooke & Cyng/Cllr Dafydd Morse

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Derbyniwyd adroddiad gan yr Heddlu am y digwyddiadau a nodwyd yn y gymuned yn ystod y mis diwethaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb yr heddlu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen. *The minutes for the December meeting were agreed as being correct by Cllr Daniel Thomas and seconded by Cllr Gwenfair Owen.*

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Soniwyd nad oedd bocs peiriant diffib wedi cael ei leoli ar wal 'Hungry Ram' hyd yma.
- Clerc wedi anfon cais i gwefan BHF am gymorth ariannol tuag at peiriant Diffib i'w leoli yn Rhydypany.
- Peiriant diffib newydd wedi'u leoli a'i gofrestru yn Garej Stags Head, aelodau o'r gymuned wedi cymerid gofal o ddydd i ddydd am y peiriant.
- Cwmni BARCUD dal yn ymchwilio mewn i'r lleoliad ym Mro Gwynfil ar gyfer parcio ychwanegol, mewn cysylltiad a Cyng Rhodri Evans. *BARCUD still making enquiries regarding additional parking at Bro Gwynfil, in touch with Cllr Rhodri Evans.*
- Ymchwiliad yn parhau rhwng y Cyngor Sir Ceredigion a'r ddau le ym Mhenuwch, a oedd o gonsyrn mawr i'r gymuned. Soniwyd bod nifer fawr o achosion tebyg i hyn yng Ngheredigion angen sylw'r Cyngor Sir. *Enquiries ongoing into the situation at the two locations in Penuwch that is of concern to the community. It was noted that there are similar cases in Ceredigion and being investigated by the County Council.*
- Bocs grit/halen newydd wedi'u leoli ar y ffordd i Llyn Fanod. *The new grit/salt box has been located on the road to Llyn Fanod.*
- Canlyniadau'r llinellau cyflymdra sydd ar groes y ffyrdd yn ein Cymuned dal heb ei derbyn. *The results of the speed lines place within the community had not been received.*
- Cadarnhad ysgrifenedig wedi'u dderbyn oddi wrth perchennog daear oddi tan ciosg BT Rhydypany, i ddefnyddio'r ddaear ar gyfer lleoli peiriad Diffib yno.
- Perchennog ffens y parc yn Llangeitho, dal heb gwblhau codi'r ffens. *The park fence in Llangeitho has not been repaired by the owner.*
- Cynghorwyr Daniel Thomas & Myrddin James wedi ymgymryd a'r gwaith o thrimio'r goeden gelyn yn y parc yn Llangeitho. *Cllrs Daniel Thomas and Myrddin James have undertaken the work of trimming the holly tree in the park in Llangeitho.*
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Parch Carwyn Arthur, yn cadarnhau derbyn ein llythyr a chadarnhad ei fod yn mynd i'w drosglwyddo i'r swyddogion sy'n gofalu am mynwent Capel Llwynpïod. Nodwyd cyfeiriad newydd yr Ysgrifennydd yr Henaduriaeth i fod yn Mrs Marian Beech Hughes.
- Angen gwneud mwy o ymchwil i hanes yr hen cysgodfan bws, Tro Pair, Cyng Beryl Evans i ymchwilio yn yr hen gofnodion sydd yn yr Archifdy yn Aberystwyth. Cytunwyd nad Cyngor Sir Ceredigion oedd yn berchen ar yr adeilad. Cyng Myrddin James i ymchwilio ymhellach hefyd. Cyngor Un Llais Cymru wedi cael ei wneud ond angen parhau trafodaethau.
- Nid oedd y gwaith o dorri'r cloddiau ar ben lôn Ffoslas, Penuwch ynghyd a lôn Pantyresgair, Penuwch wedi'u wneud hyd yma. *The hedge cutting at the top of Ffoslas, Penuwch and the lane to Pantyresgair, Penuwch had not been carried out yet.*
- Angen ail baentio'r llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch a'r sgwâr yn Llangeitho. *The white lines at the junction near Glanwern, Penuwch and Llangeitho square need to be painted.*

- Angen cyfieithiad Saesneg o'r llythyr sydd i'w gadw wrth law ynglŷn ag arwyddion cyflymdra 20mya.
English translation of letter now to be kept in reserve regarding 20mph speed signs.
- Twll yn y ffordd o dan Aeron View, Llangeitho wedi'u llenwi.
Pothole under Aeron View, Llangeitho had been repaired.
- Twll ar bwys Johnson, Gilrhyg, Llangeitho wedi'u llenwi.
Hole near Johnson, Cilrhyg, Llangeitho had been repaired.
- Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb o'r Ymgynghoriad o'r Comisiwn Ffiniau hyd yma.
No response has been received from the Boundaries Commission.
- Drain ar waelod rhiw Gaerlwyd dal ddim wedi'u gwacau.
The drain at the bottom of Gaerlwyn hill hadn't been emptied.
- Cais wedi'u gyflwyno am £5,500 praesept 2024-25. Trafodwyd y praesept unwaith yn ragor yn ôl gofynnion y Cyngor Sir a chytunwyd i gadw ar £5,500.
- Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir am y conau traffig sydd wedi bod wrth ymyl eiddo Glanwern Penuwch, mae hyn yn codi pryder i'r gymuned gan iddynt rhagweld damwain yn digwydd wrth i gerbydau symud allan i ganol y ffordd i deithio o amgylch y conau.
- Angen y sweeper ar hyd y ffyrdd sydd yn mynd lan i Benuwch.
Request for the sweeper to attend to roads leading out of Penuwch.
- Diolchwyd i'r ddau Cyngorydd a fu'n trimio'r goeden gelyn nol yn y Parc yn Llangeitho, soniwyd bod yna gelyn da wedi'u ddsbarthu i'r gymuned.

Llyn Fanod

Dim ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth Cyfreithiwr Mr Edward Harris, yn cadarnhau'r canlynol:-
No response received from Mr Edwards Harris Solicitors, confirming the information below: -

Clerc i ysgrifennu at y cyfreithiwr eto yn gofyn y canlynol:
Clerk to write to the solicitors requesting clarification of matters listed below:

1. Os mae'r Prifysgol yw'r perchnogion, pam mae dim ond rhan Blaenpennal o'r Llyn gafodd ei gwerthu i'r Wildlife Trust yn yr wythdegau a dim y Llyn i gyd?
If the University are the owners, why was it that only the Blaenpennal part of the lake was sold to the Wildlife Trust in the 1980s and not the whole lake?
2. Os mae'r Prifysgol yw'r perchnogion, pam na ddangoson nhw dim diddordeb yn atal y Llyn cael ei gwerthu pan oedd y ddaear o amgylch ar sêl Penlon tair blynedd yn ôl? Buon yn cysylltu gyda'r Prifysgol adeg ni ond doedden nhw ddim am wybod, ac heblaw bod rhai o ni wedi aros lan dros y Llyn, mi fyddai wedi cael ei gwerthu gyda'r tir.
If the University are the owners, why didn't they show any interest in preventing the sale of the lake during the sale of Penlon land three years ago? We contacted the University at the time, and they weren't aware of the sale, and if we hadn't raised the matter at the time the lake would have been sold with the land.
3. Os mae'r Prifysgol yw perchnogion, beth yw ei bwriad tuag at y Llyn, e.e. rheolaeth o'r Llyn, diogelwch o'r cyhoedd fydd yn mynd at y Llyn, bywyd natur ar y Llyn, gweithio gyda'r Wildlife Trust ac yn y blaen.
If the University are the owners, what are their intentions regarding the future of the lake, e.g. – management of the lake, health and safety of the public visiting the lake, wildlife at the lake, working with the Wildlife Trust etc.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Rhagfyr '23 & Ionawr '24 - £246.22 *Clerk Salary for December '23 & January '24*

Cynnig/Proposer: Cyng/Cllr Beryl Evans Eiliwyd/Seconder: Cyng/Cllr Myrddin James

Bwrdd Gwybodaeth & Deiseb Heddwch/Information Board & Peace Petition

Soniwyd am rai o'r digwyddiadau a'r cynlluniau ar gyfer y bwrdd gwybodaeth & Deiseb Heddwch, cytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r fenter yma yn ariannol. Nodwyd hefyd fod yna grant efo Cynnal y Cardi ar gael hefyd i'r pwyllgor geisio amdano.

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w gofnodi. *Nothing to report.*

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Sir am cynlluniau'r dyfodol y Cyngor Sir.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu Garddwest Palas Buckingham – Dim gweithrediad.

Belltown Power

Cais wedi'u dderbyn i aelodau o Belltown Power ddod i rhoi cyflwyniad i'r Cyngor Cymuned ar y datblygiad arfaethedig hwb ynni gwynt yn Llanddewi-Brefi (Waun Maenllwyd Energy Hub). Trafodwyd y cais a phenderfynwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf a gynhelir yn Neuadd Llangeitho ar 4ydd o Fawrth 2024 am 7.30 o'r gloch.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Angen glanhau drains lan ffordd o Parcrhydderch heibio Bronaeron, Llangeitho.
- Angen llenwi'r tyllau yn y ffordd uwchben fferm Cilcert, ar bwys y bales silwair.
- Ysgol Rhos Helyg yn mynd drwy arolwg ysgol yn yr wythnos i ddod, dymuniadau da i'r Ysgol.
- Angen newid bulbs golau stryd rhwng yr Ysgol Rhos Helyg a Capel Gwynfil i rhai LED.
- Gofynnir yn garedig i Cyng Daniel Thomas i dorri'r coed oddi amgylch golau stryd rhwng Ysgol Rhos Helyg a Capel Gwynfil gan fod y coed yn tyfu ar ddaear Cyng Thomas ac yn amharu ar y golau lawr i'r palmant.
- Consern mawr wedi'u leisu am y pwysigrwydd o gritio'r ffyrdd ym mhlwyf Llangeitho os ddaw Gaeaf caled.
- Poeni am ddyfodol Ysbyty Tregaron gan fod yna dim ond 9 gwely ar hyn o bryd yn yr Ysbyty yn gyfan gwbl, angen ysgrifennu i ddatgan ein consern am y sefyllfa.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Jiwibili Llangeitho ar nos Lun 4ydd o Fawrth 2024 am 7.30 o'r gloch.

The next meeting will be held at the Jiwibili Hall, Llangeitho on Monday 4th March 2024 at 7.30 o'r gloch.